



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 18 Mehefin 2019 am 10.30 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd M Norris Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd R Lewis Y Cyngorydd C Leyshon

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol

1 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol Andrew Morgan ddatganiad o fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 6 ar yr Agenda: 'Fi yw Cadeirydd Cabinet Rhanbarthol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.'

2 COFNODION

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2019 yn rhai cywir.

3 CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD

Nododd yr Aelodau Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019-20, yn dilyn y diwygiadau a gafodd eu hadrodd yn 24ain Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor.

4 RHAGLEN WAITH Y CABINET 2019-20

Darparodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu raglen waith ddrafft ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019-20 i'r

aelodau, a oedd yn rhestru'r materion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod defnyddio'r rhaglen yn helpu i gadw'r broses gwneud penderfyniadau yn agored ac yn dryloyw o fewn y Cyngor, yn ogystal â rhoi rhagor o gyfleoedd o ran camau cyn craffu.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 yr adroddiad a dywedwyd wrthyn nhw bod y rhaglen yn ddogfen fyw fel bod modd ychwanegu neu ddileu adroddiadau yn ystod y flwyddyn.

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd sylwadau ar y rhaglen ddrafft a'r angen i'r ddogfen fod yn un hyblyg, gan ystyried blaenoriaethau ac amserlenni newydd a newidiol er mwyn caniatáu ymgymryd â gwaith cyn craffu. Siaradodd y Dirprwy Arweinydd yn gadarnhaol hefyd am fudd llunio'r rhaglen waith er mwyn cynorthwyo'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu wrth eu gwaith.

1. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019-20 a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

5 GWASANAETHAU'R RHENG FLAEN - CYNLLUNIAU GWELLA PRIFFYRDD

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau'r Rheng Flaen ei adroddiad i'r Aelodau, a oedd yn amlinellu cynlluniau gwella'r priffyrdd a rhoddodd ddiweddariad ar eu cynnydd hyd yma.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod Cynllun Gwella'r Priffyrdd yn parhau i gynnig lefelau uwch o fuddsoddiad yn rhan o fenter 'BuddsoddiadRhCT', gan gyflawni gwelliannau parhaus o ran gwytnwch isadeiledd priffyrdd a thrafnidiaeth y Cyngor, a hyrwyddo cyfleoedd teithio cynaliadwy ac effeithlonrwydd y rhwydwaith.

Cafodd yr Aelodau wybod y byddai Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd yn cydlynu a chyflawni buddsoddiad sylweddol mewn nifer o feysydd pwysig yn ystod 2019/20 a byddai'r rhaglen o gynlluniau ychwanegol yn gwella cyflwr ein rhwydwaith priffyrdd ymhellach. Cyfeiriodd y swyddog yr Aelodau at Atodiadau'r adroddiad mewn perthynas â hyn.

Daeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth a'i sylwadau i ben trwy ddweud bod capasiti yn bodoli bellach i weithredu'r cynlluniau sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2 oherwydd cynnydd gwych y cynlluniau eraill. Nododd hefyd fod gan y cynlluniau ychwanegol werth o £1.3 miliwn.

Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau cadarnhaol am yr adroddiad, gan ychwanegu bod y rhwydwaith bellach yn elwa o wyth mlynedd o fuddsoddiad lefel uwch, ac y byddai'r cyllid hanfodol bwysig yma yn parhau hyd at 2021/22. Bydd hyn yn gwella a gwarchod rhwydwaith y priffyrdd ac yn mynd i'r afael ag effaith tywydd garw'r gaeaf.

Siaradodd Aelodau eraill o'r Cabinet am yr eitem gan wneud sylwadau ar sefyllfa gadarnhaol y Cyngor a gwaith caled ac ymroddiad y staff sy'n cyflawni gwaith y cynlluniau.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r cynnydd ardderchog sydd wedi'i wneud hyd yma fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

2. Nodi'r cynlluniau ychwanegol sydd wedi'u dwyn ymlaen i'w gweithredu fel y dirprwywyd yn flaenorol i Gyfarwyddwr y Gyfadran, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol.

6 CYNIGION AM GYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL AR GYFER PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygiad drosolwg i'r Aelodau o'i adroddiad, a gyflwynodd gynrig ar gyfer cynllun datblygu strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Cafodd yr Aelodau wybod bod Llywodraeth Cymru wedi gwahodd pob Awdurdod Cynllunio Lleol i gyflwyno cynrigion ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol. Datganodd y byddai'r gallu i gynllunio'n strategol i gefnogi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod deilliannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol allweddol yn cael eu cyflawni mewn dull cydlynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar draws y rhanbarth ehangach.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod Cytundeb y Fargen Ddinesig yn ymrwmo i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth ac i weithio ar y cyd ar faterion trafndiaeth strategol a chynllunio strategol. Ychwanegodd fod Cynllun Datblygu Strategol statudol yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr, buddsoddwyr a chymunedau bod penderfyniadau strategol allweddol yn ymwneud â darpariaeth tai, trafndiaeth, cyflogaeth ac isadeiledd yn cael eu gwneud ar lefel ranbarthol briodol, tra ei fod yn parhau i ganiatáu i benderfyniadau allweddol ar gynrigion cynllunio gael eu cymryd yn lleol trwy ddyraniadau a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ac wedi hynny mewn penderfyniadau rheoli datblygu.

Cafodd y Cabinet wybod mai dim ond Awdurdod Cyfrifol dynodedig a allai gyflwyno cynrig i fwrw ymlaen â Chynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR), unwaith y bydd pob Cyngor wedi rhoi cymeradwyaeth yn ffurfiol. Cafodd yr Aelodau wybod y byddai Bro Morgannwg yn dod yn 'Awdurdod Cyfrifol' a rhoddodd y cyfarwyddwr fanylion a sicrwydd i'r Aelodau o ran y trefniadau llywodraethu yn y dyfodol gan y Panel Cynllunio Strategol a'r cynrychiolwyr, gan gynnwys hawliau pleidleisio.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai fod angen i'r Cynllun Datblygu Strategol gael ei roi ar waith a soniodd am fanteision cynllun o'r fath i RCT a rhanbarth y Fargen Ddinesig. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am bwysigrwydd llywodraethu a chadarnhaodd na fyddai gan y Panel bwerau cais cynllunio dros Awdurdod Lleol.

Siaradodd yr Arweinydd am waith caled swyddogion ac Aelodau ym mhob un o'r 10 rhanbarth a arweiniodd at y sefyllfa bresennol a'r gwaith y mae angen bwrw ymlaen ag ef, gan roi sylwadau ar sefyllfa Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Strategol.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Bod Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cymeradwyo cynnwys yr adroddiad ac yn cytuno y dylid awdurdodi'r Awdurdod Cyfrifol i gyflwyno'r Cynrig ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i'r Gweinidog ar ran y 10 Awdurdod Cynllunio Lleol yn y rhanbarth.

2. Bod Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cymeradwyo Cyngor Bro Morgannwg fel yr Awdurdod Cyfrifol ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
3. Bod Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cadarnhau y dylai'r ardal gynllunio strategol gynnwys y 10 ardal awdurdod cynllunio lleol o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel y dangosir ar y map yn Atodiad A yr adroddiad.
4. Bod Cyngor Rhondda Cynon Taf yn awdurdodi swyddogion perthnasol i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth ddrafftio Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Strategol i sefydlu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Cynllun a'r Panel Cynllunio Strategol fel y nodir ym mharagraffau 5.10 i 5.24 yr adroddiad.
5. Bod Carfan Swyddogion Rhanbarthol y Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei sefydlu i fwrw ymlaen â pharatoi'r Cynllun, i'w benodi gan gynrychiolwyr y Panel Cynllunio Strategol Dros Dro, gyda chymorth priodol gan adran adnoddau dynol yr Awdurdod Cyfrifol.
6. Bod cost paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei rhannu ar draws y 10 Awdurdod yn ôl cost gyfrannol yn seiliedig ar y gynrychiolaeth bleidleisio ar y Panel Cynllunio Strategol, i'w hadolygu'n flynyddol. Byddai hyn yn golygu cyfraniad cychwynnol o £6,520 gan Rondda Cynon Taf tuag at £50,005 ar y cyd i dalu am y costau cychwynnol sy'n debygol o ddiwydd yn y flwyddyn ariannol hon 2019/20. Nodir manylion y costau hyn a'r costau blynyddol pellach ym mharagraffau 5.30 i 5.40 yr adroddiad.

(**D.S.** Mae Cofnod Rhif 157 yn cyfeirio at y datganiad o fuddiant personol wnaeth Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â'r eitem hon.)

7 CYNIGION I GYNNAL ADOLYGIAD FFURFIOL O GYNLLUN DATBLYGU LLEOL Y CYNGOR

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu wybod i'r Aelodau bod angen adolygu Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf a cheisiodd gymeradwyaeth i swyddogion fwrw ymlaen â'r gwaith o baratoi Adroddiad Adolygu a Chytundeb Darparu ffurfiol. Byddai'r rhain wedyn yn cael eu hargymell i'r Cyngor er mwyn eu cymeradwyo.

Dywedodd fod y cynnig i ddatblygu'r cynllun wedi'i baratoi ochr yn ochr â'r cynigion ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth. Cafodd yr Aelodau wybod bod y CDLI yn dod i ben yn 2021, sy'n golygu y bydd cyfnod posibl heb unrhyw CDLI.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai y cynnig gan ddweud bod angen i'r CDLI a'r CDS ategu ei gilydd a soniodd y byddai angen i'r CDLI barhau am gyfnod fel mesur dros dro. Soniodd am bwysigrwydd dwyn ynghyd yr holl strategaethau a'r canllawiau atodol fel un datganiad polisi llawn yn y dyfodol.

Soniodd y Dirprwy Arweinydd am bryderon yr Aelod Lleol dros Drefforest mewn perthynas â Thai Amfeddiannaeth a dywedodd fod adolygiad a datblygiad y

CDLI a'r CDS yn gyfle i roi strategaethau mwy cadarn ar waith mewn perthynas â'r mathau hyn o eiddo.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad ynglŷn â'r angen i adolygu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) RhCT a chytuno i swyddogion ddechrau gweithio ar baratoi Adroddiad Adolygu CDLI ffurfiol a Chytundeb Darparu.
2. Ar ôl ei gwblhau, bydd yr Adroddiad Adolygu a'r Cytundeb Darparu yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried. Yn dilyn hyn, caiff yr adroddiad ei argymhell i'r Cyngor yn nhymor yr hydref 2019.

8 YMATEB Y CYNGOR I NET ZERO - Y PWYLLGOR AR NEWID HINSAWDD

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr yr Aelodau at ei adroddiad, a gyflwynodd y cyfleoedd sydd ar gael i'r Cyngor ymateb i'r heriau sydd wedi'u cyflwyno gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn ei adroddiad Net Zero.

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa fod y Cyngor, ym mis Mawrth 2018, wedi ymrwymo i Ymrwymiad Ynni Glân UK100 i gymryd camau priodol er mwyn symud tuag at fod yn Awdurdod sy'n gwbl gyfrifol yn amgylcheddol erbyn 2050, a dywedodd y Prif Weithredwr fod y pwysau amgylcheddol wedi cynyddu ledled y byd dros y chwe mis diwethaf.

Soniodd y Prif Weithredwr am gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru gan ychwanegu ei bod yn hanfodol bod y Cyngor yn dechrau cynllunio a chymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod Rhondda Cynon Taf yn gallu cymryd cyfrifoldeb llawn am ddod yn Gyngor "Net Zero" a chefnogi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gyflawni eu targedau priodol.

Darparwyd trosolwg o'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn gan y Cyngor o ran 'Net Zero' a hysbyswyd yr Aelodau o'r cyfle i ymateb y Cyngor i adroddiad y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd gael ei ymgorffori yn y Cynllun Corfforaethol newydd ac iddo gael ei ystyried wrth baratoi Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2020/2023.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Weithredwr am ei adroddiad a soniodd am y gwaith yr oedd y Cyngor wedi'i wneud hyd yma mewn perthynas ag arbedion effeithlonrwydd ynni a'r gostyngiad yn ôl-troed carbon y Cyngor a'r potensial i'r Cyngor wneud rhagor yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd hefyd at yr adeiladau ysgol newydd yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif sy'n sicrhau nid yn unig yr addysg orau i bobl ifainc y Fwrdeistref Sirol ond sydd hefyd wedi cyflwyno mesurau sy'n cael effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a gostwng yr ôl-troed carbon, gydag ynni cynaliadwy.

Cadarnhaodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai y byddai angen bwrw ymlaen â'r camau gweithredu mewn perthynas â 'Net Zero' hefyd drwy'r CDLI a'r CDS.

Trafododd Aelodau eraill y Cabinet yr adroddiad gan roi sylwadau ar y gwaith sydd wedi'i wneud mewn perthynas ag ynni cynaliadwy a'r isadeiledd sydd ar waith ar draws y Fwrdeistref Sirol i gefnogi hyn. Trafodon nhw hefyd

ymarferoldeb cerbydau allyriadau carbon isel wrth symud ymlaen a chyfleusterau gwefrio ac ymatebodd yr Arweinydd iddynt.

Ar ôl trafodaeth fanwl, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.

Bod Cynllun Corfforaethol drafft newydd, sy'n ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Cabinet ym mis Hydref 2019 sy'n nodi ymateb y Cyngor i ganfyddiadau'r Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd fel sy wedi'i nodi yn ei adroddiad Net Zero.

9 STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL AR GYFER RHONDDA CYNON TAF

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned wrth y Cabinet am ddyletswydd y Cyngor i gydymffurfio â'r gofyniad statudol i ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth Toiledau Lleol, fel sy'n ofynnol yn ôl Rhan 8 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

Cafodd yr Aelodau wybod bod strategaeth ddrafft wedi'i pharatoi a oedd yn cynnwys yr adborth yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn rhan o'r Asesiad o Angen a gynhaliwyd am bedair wythnos, gan ddechrau ym mis Hydref 2018. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys adborth yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus statudol 12 wythnos ar y strategaeth ddrafft, a ddechreuodd ym mis Chwefror 2019.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Lles a Gwasanaethau Diwylliannol sylwadau ar yr ymgynghoriad manwl a gynhaliwyd mewn perthynas â'r eitem a siaradodd am fuddsoddiad mewn cyfleusterau cyhoeddus ar draws y Fwrdeistref Sirol gan yr Awdurdod. Cafodd yr Aelodau wybod hefyd am y cyfleusterau sydd ar gael yn y Canolfannau Cymuned. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd at y cyfleusterau sydd ar gael drwy'r sector preifat a'r 3^{ydd} sector.

Soniodd y Dirprwy Arweinydd, yn rhinwedd ei swydd yn Aelod o'r Cabinet ar faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, am yr adborth gan drigolion wrth ymgymryd â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r pwyslais y mae preswylwyr yn ei roi ar ddarparu cyfleusterau cyhoeddus ar draws y Fwrdeistref Sirol a'i bwysigrwydd.

PENDERFYNWYD:

1. Cymeradwyo Strategaeth Toiledau Lleol 2019.
2. Cymeradwyo cyhoeddi Strategaeth Toiledau Lleol 2019.

10 TRAFOD CADARNHAU'R CYNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD: "Bod y cyfarfod yma yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

11

CYNIGION AR GYFER TROSGLWYDDO ASED CYMUNEDOL - CANOLFAN GELF Y MIWNI, PONTYPRIDD

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned ei adroddiad i'r Cabinet, a oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, ac yn cyflwyno crynodeb ac asesiad i'r Cabinet o'r holl gynigion busnes sydd wedi'u derbyn mewn perthynas â'r gwaith arfaethedig o drosglwyddo ased cymunedol Canolfan Gelf y Miwni. Roedd hyn yn cynnwys amlygu buddion a risgiau mewn perthynas â phob cynnig a goblygiadau cyfalaf a referniw hefyd.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr adborth pellach i'r Cabinet ynghylch sylwadau Grŵp Llywio'r Celfyddydau a Diwylliant Strategol yn dilyn ei gyfarfod ar 13 Mehefin.

Yn dilyn trafodaethau manwl mewn perthynas â phob un o'r cynigion busnes a nodwyd yn yr adroddiad, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor:

1. Fwrw ymlaen â thenantiaeth gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ar ôl ystyried crynodeb ac asesiad y ddau gynllun busnes a dderbyniwyd mewn perthynas â throsglwyddo asedau Canolfan Gelf y Miwni.
2. Awdurdodi Swyddogion i gynnal trafodaethau manwl gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen i gytuno ar delerau'r brydles a'r gofynion o ran cefnogaeth ariannol angenrheidiol i sicrhau dyfodol cynaliadwy i Ganolfan Gelf y Miwni, a
3. Dim ond os oes modd cytuno ar delerau addas rhwng y ddau barti, awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned mewn ymgynghoriad â'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Lles a Gwasanaethau Diwylliannol i wneud y trefniadau angenrheidiol i drosglwyddo Canolfan Gelf y Miwni i Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, a
4. Os nad oes modd cytuno ar delerau addas, bydd y Cyngor yn ystyried dewisiadau eraill ar gyfer dyfodol Canolfan Gelf y Miwni.

12

CYNLLUN DATBLYGU GOFAL YCHWANEGOL

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant yr Aelodau at ei adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed gyda chynlluniau gofal ychwanegol Aberaman a Phontypridd yn rhan o Strategaeth Tai Gofal Ychwanegol y Cyngor a'r rhaglen ddatblygu a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cabinet,

Siaradodd aelodau'r Cabinet ar yr eitem ac yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran datblygu cynlluniau gofal ychwanegol Aberaman a Phontypridd.
2. Cymeradwyo'r pecyn cyllid fel sydd wedi'i amlinellu yn Adran 5 yr adroddiad eithriedig i ddatblygu cynllun gofal ychwanegol Aberaman.
3. Cymeradwyo'r pecyn cyllid fel sydd wedi'i amlinellu yn Adran 6 yr

adroddiad eithriedig isod, i ddatblygu cynllun gofal ychwanegol Pontypridd.

4. Cynnwys cynllun gofal ychwanegol Pontypridd o fewn y Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd (Rhaglen Foderneiddio (Oedolion)).
5. Derbyn adroddiadau diweddarau pellach ar gynnydd cyflwyno Strategaeth Tai Gofal Ychwanegol y Cyngor a'r cynllun datblygu, ac ar gostau'r cynlluniau unigol a'r gofynion ariannu i'w hystyried a'u cymeradwyo.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35 am

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**